Atodiad B2

Sylwadau Gwyneth Williams, Rheolydd Gorwel, Trais yn y Cartref De Gwynedd

---

Sut yr effeithir ar blant gan gamdriniaeth neu drais yn y cartref?

1. Mae'r mwyafrif o blant yn dyst i'r trais sy'n cymryd lle, ac yn 90% o'r achosion, maen nhw yn yr un ystafell neu'r ystafell drws nesaf.
2. Gallant fod yn 'dystion' i drais yn y cartref mewn sawl ffordd.
3. Gallant gael eu dal yng nghanol digwyddiad mewn ymgais i ddod â'r trais i ben.
4. Gallant fod yn yr ystafell drws nesaf a chlywed y camdrin neu weld anafiadau ar y fam yn dilyn y trais.
5. Gallant gael eu gorfodi i aros mewn un ystafell neu eu rhwystro rhag chwarae
6. Gallant gael eu gorfodi i dystio trais rhywiol neu gallant gael eu gorfodi i gamdrin person yn eiriol.
7. Mae pob plentyn sy'n cael ei orfodi i brofi camdrin neu drais yn y cartref yn cael eu camdrin yn emosiynol.

Ydi'r effaith yr un fath ar bob plentyn?

8. Gall ymateb plant i'r trawma o dystio trais yn y cartref amrywio gan ddibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys oed, hil, rhyw a lefel o ddatblygiad.
9. Unigolion yw plant a gallant ymateb i dystio camdriniaeth mewn ffyrdd gwahanol.
10. Mae'n hanfodol cynnal asesiad llawn o sefyllfa plentyn.

Beth mae arian Cyngor Gwynedd yn eich galluogi i wneud?

11. Yr unig wasanaeth sydd yn cyflogi swyddogion arbenigol i gefnogi plant a phobl ifanc sydd yn cael eu heffeithio gan drais yn y cartref yng Ngwynedd
12. Gwrando ar lais y plentyn/person ifanc
13. Cynnal sesiynau cefnogi un i un a gwaith grŵp (os yn berthnasol)
14. Datblygu eu sgiliau i ddeall eu sefyllfa, a sut i gadw eu hunain yn saff
15. Adeiladu hyder
16. Cyfle i gwrdd â phlant a phobl ifanc eraill sydd hefyd yn yr un sefyllfa.

Beth arall mae'r arian yn eich galluogi i wneud?,

17. Mae derbyn yr arian craidd wedi ein galluogi i ddenu arian ychwanegol e.e. grant gan Lloyds TSB yn ein Siop Un Stop Trais yn y Cartref yn Nolgellau.
18. Heb yr arian craidd yma ni fydd cyfle i ddenu neu gynnal arian ychwanegol i'r gwasanaeth.

Faint sy'n defnyddio'r gwasanaeth?

19. Mae 82 o blant a phobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth yn y chwe mis o'r 1af Ebrill 2014 hyd at 30 Medi 2014.
20. Ein pryder yw at bwy fydd yr achosion yma'n cael eu cyfeirio pe bai'r gwasanaeth yn dod i ben.